

## Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Ionawr 2016

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Meirion Owen, Siân Godbert, Karen Pugh, Jim Boughton, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy. Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriadau Gwawr Jones, Marion Bettenev, Gareth Parry  
Datgan diddordeb Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.  
Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Ragfyr 2015.

#### (1)Yr Heddlu

[a]Cyfeiriodd y clerch at adroddiad byr gan yr heddlu yn dweud nad oedd achosion o yrru na gyrru'n wrth gymdeithasol yn amlwg yn y pentref.

[b] Bu lladrad o'r peiriant talu ym maes parcio Ffordd yr Orsaf , a collwyd peth arian..

[c] Bu ymdrech i ddwyn arian o'r blwch pres yn y Rhaeadr Ewynnol ond ni fu'r lladron yn llwyddiannus

#### [1.1] Materion Ffyrdd/ Cyflwyno 20 m.y.a. ym Mhentre' Du

Nodwyd y bwriad gan Gyngor BS Conwy i gyflwyno 20 m.y.a. yn y lleoliadau canlynol; Ffordd Gethin, Rhes Gethin, a Bro Gethin. Penderfynwyd cefnogi'r cynnig.

[b] Y clerch i anfon yn gofyn i'r arwyddion gael ei glanhau ar fin yr A5

[c] Adolygiad Diogelwch Priffyrdd yng Nghymru –Nodwyd bod yr adolygiad i'w gael ar <http://www.traffic-wales.com/Trunkroadsafetyreview.aspx>

#### [1.2] Defiliberator

Dywedodd y clerch ei fod yn dal i ddisgwyl i'r trydanwr osod y defiliberator

#### [1.3] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dosbarthwyd taflen twristiaeth a baratowyd gan y Cadeirydd, a chytunodd i geisio costau printio a.y.b

#### [1.4] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Nodwyd bod y mater yn parhau.

#### [1.5] Cae Chwarae Pentre' Du

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Gyngor BS Conwy yn dilyn i'r byrddau gael ei symud

#### [1.6] Creu Swigod/Cae Llan

Y clerch i gysylltu gyda Mr William Hall i ymholi a oedd ateb ynglŷn â chreu swigod ar Cae Llan.

#### [1.7] Goleuadau Nadolig

Y clerch i geisio costau ar gyfer goleuadau ychwanegol.

#### [1.8] Gwahoddiad Garddwest Palas Bucingham

Penderfynwyd anfon at Unllais Cymru yn cynnig bod y Cyng Karen Pugh yn cael gwahoddiad i'r parti.

#### [1.9] Toiledau Ffordd yr Orsaf

Croesawyd Mr Steven Teale, Adran yr Amgylchedd Cyngor BS Conwy i'r cyfarfod, ac eglurodd ynglun a threfniadau mynediad i'r toiledau. Yn dilyn trafodaeth, dywedodd os bydd arian ar gael byddai'r Cyngor Sir yn ceisio gwella'r trefniadau mynediad.

#### [2] Rhaeadr Ewynnol

Adroddodd y clerc bod lladron wedi ceisio dwyn arian o'r Rhaeadr Ewynnol am 2.00 o'r gloch y bore ar y 27ain Rhagfyr, er na chollwyd arian roedd difrod wedi ei wneud i'r peiriant derbyn pres, a bu colled fawr ariannol yn ystod cyfnod y flwyddyn newydd.

#### Brif Agenda

##### [2.1 ] Materion Cynllunio

[a] Newid defnydd o siop, i siop a chaffi/bwyty Uned 1 Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed.

[b] Uwchraddio Lleoliad Cysylltiad Gorsaf Radio, Gwesty'r Rhaeadr Ewynnol, Betws-y-Coed  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

##### [2.2] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Rhagfyr 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Rhagfyr 2015.

##### [2.3] Olwyn Golygfa

Gan nodi cais i osod yr olwyn dros dro yng Nghae Llan, y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r canlynol ;

[a] Faint o arian fyddai'r Cyngor yn dderbyn.

[b] Faint fyddai'r cyfnod dros dro.

##### [2.4] Llifogydd Pentre' Du

[a] Cyfeiriodd y Cyng Elisabeth Roberts at y broblem o lifogydd ym Mhentre' Du a dywedodd bod cyfarfod i'w gynnal gydag Adran yr Amgylchedd, Cyngor BS Conwy, Mr William Hall Ystâd Ancaster a chynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned. Y Cyng Roberts i gysylltu ynglŷn a'r trefniadau.

[b] Dywedodd y clerc bod pwmp dwr ychwanegol wedi ei brynu i gynorthwyo gyda'r llifogydd. Y pwmp i gael ei gadw dan ofal y ddwy warden llifogydd, y Cyng Karen Pugh a Siân Godbert.

##### [2.5] Elusen/ Ffair Hen Bethau

Cyfeiriodd y clerc at gais gan Ms Samantha F Tilley i logi'r neuadd ar gyfer gwerthu hen ddillad/bagiau llaw a gemau a.y.b. Penderfynwyd caniatáu'r cais.

##### [2.6] Lwybrau Cyhoeddus/ Pont-y-Mwynwyr

Y clerc i geisio gwelliannau gan Gyngor BS Conwy i lwybrau 31 a 19 uwchben ac is lawr i'r bont.

##### [2.7] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Cyngor BS Conwy, Gwahoddiad i Sul Dinesig y Cadeirydd, Dydd Sul 28ain Chwefror am 2.30 y prynhawn yn Eglwys Santes Fair, Betws-y-Coed.

[b] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad Drafft Bil Llywodraeth Leol Cymru, Venue Cymru Llandudno 15fed Chwefror 10.30 y.b. - 1.30 y.p.

[c] Parc Cenedlaethol Eryri, Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft.

Cadeirydd \_\_\_\_\_